y comisiwn **archwilio** yng nghymru

Archwiliad 2004/2005

# Cynllun Archwilio

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

CYNNWYS Y CYNLLUN HWN


**TUDALENNAU 3-7**

## Adroddiad Cryno

- Cyflwyniad
- Ein cyfrifoldebau
- Y ffi
- Cyfrifon
- Agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol
- Perfformiad
- Y tîm
- Mwy o fanylion am ein cyfrifoldebau gwahanol
- Statws ein hadroddiadau i'r Awdurdod

**TUDALENNAU 8-11**

## Atodiadau

- Gofynion y Comisiwn Archwilio o ran annibyniaeth a gwrthrychedd
- Deilliannau arfaethedig


**audit** commission in wales

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | 1261A2004W |
| **Awdur:** | David Jones |
| **Dyddiad:** | Rhagfyr 2004 |

## *Statws ein hadroddiadau i'r Awdurdod*

*Mae'r adroddiad yma wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:*

- *Mewn perthynas ac archwiliad perfformiad, yn ôl Deddf y Comisiwn Archwilio 1998*, yng nghyd-destun Datganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig a gyhoeddir gan y Comisiwn Archwilio*.*
- *Mewn perthynas ag arolygiadau, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd yn ôl gofynion Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999 ac yn unol a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghylchlythyr 14/2000 a 18/2002. Cyhoeddir yr adroddiad arolygu yn unol a'r ddyletswydd yn ôl Adran 13 Deddf 1999.*

*Paratoir yr adroddiadau gan archwilwyr ac arolygwyr a benodwyd ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff archwiliedig a enwir yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar archwilwyr nac arolygwyr i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, neu i unrhyw drydydd parti.*

## Cyflwyniad

1. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at y gwaith sydd i'w wneud ym mlwyddyn archwilio 2004/2005. Gan eithrio'r gwaith ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod, disgwyliwn y byddwn yn gorffen y gwaith a amlinellir yn y cynllun hwn erbyn Mehefin 2005.
2. Paratowyd fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.

## Ein cyfrifoldebau

3. Ein prif amcan fel eich archwilwyr penodedig yw cynnal archwiliad sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio .
4. Un o brif ofynion y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) yw ein bod yn llunio rhaglen waith i wynebu'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol a fydd yn effeithio ar eich cyfrifoldebau.
5. Mae'r Cod yn gofyn i ni adolygu a oes gennych weithdrefnau boddhaol ar gyfer:
   - sicrhau cyfreithlonrwydd trafodion sydd â chanlyniad ariannol sylweddol;
   - sicrhau bod eich sefyllfa ariannol yn gadarn;
   - bod yn dawel eich meddwl bod eich systemau rheoli ariannol mewnol yn ddigonol ac yn effeithiol;
   - sicrhau safonau ymddygiad ariannol priodol; rhwystro a chanfod twyll a llygredd;
   - sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eich defnydd o adnoddau.
6. Mae'n rhaid i ni hefyd ddatgan barn am:
   - a yw eich Cyfrifon yn rhoi darlun cywir o sefyllfa ariannol yr Awdurdod;
   - eich Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau.
7. Mae dogfen y Comisiwn Archwilio 'Datganiad am Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir' yn rhoi mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau gwahanol y naill a'r llall dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Y ffi

8. Pennwyd y ffi Archwilio ar sail y risgiau a ganfuwyd gennym a'r gwaith y cytunwyd rhyngom y byddem yn ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.
9. Rhaid i'r cynllunio mynd yn ei flaen yn barhaus ac efallai y bydd angen newid y Cynllun os bydd unrhyw risgiau sylweddol newydd yn ymddangos neu os bydd amgylchiadau'n newid. Ni wneir unrhyw newidiadau heb ymgynghori'n gyntaf â chi.

10. Mewn gwirionedd, y ffi am yr Archwiliad Cod Ymarfer 2004/2005 yw £47,307 (heb TAW); ceir amlinelliad isod.

| | Ffi arfaethedig 2002/2003 a 2003/2004 £ | Amcangyfrif o'r gwir ffi 2002/2003 a 2003/2004 £ | Ffi arfaethedig 2004/2005 £ |
|---|---|---|---|
| Cyfrifon | 20,349 | 20,349 | 12,734 |
| Agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol | 31,271 | 31,271 | 16,566 |
| Perfformiad | 29,077 | 29,077 | 18,008 |
| **Cyfanswm y ffi** | **80,697** | **80,697** | **47,307** |

11. Yn ogystal â'r ffi uchod, mae'n rhaid i ni godi tâl, ar raddfa briodol i'r sgiliau, am yr amser a dreuliwn yn gwirio ceisiadau am grantiau'r Llywodraeth a'r enillion. Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld angen i godi unrhyw dâl am wirio ceisiadau am grantiau ac enillion.

12. Nid oes cytundeb i wneud unrhyw waith arall, sydd y tu allan i'r Cod Ymarfer Archwilio.

## Cyfrifon

13. Gofynnir i ni fynegi barn am Gyfrifon Blynyddol yr Awdurdod. Gwnawn ein dyletswydd trwy adolygu'n gyntaf eich gweithdrefnau ariannol craidd:

- y brif system gyfrifo;
- y gweithdrefnau rheolaeth gyllidol;
- y gweithdrefnau terfynol wrth gwblhau'r cyfrifon .

14. Yna byddwn yn defnyddio cyfuniad o adolygiad dadansoddol a phrofion ymarferol i asesu cywirdeb y ffigurau sydd yn y datganiadau ariannol.

15. Dylid nodi na fydd ein Harchwiliad Cyfrifon yn ceisio am sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchiad cywir o'ch sefyllfa ariannol, nag am sicrwydd eu bod yn gywir ym mhob manylyn. Yn y cyd-destun hwn byddwn yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Byddwn yn ceisio, wrth gynllunio a chynnal ein Harchwiliad Cyfrifon, i ganfod camgymeriadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol. Camgymeriadau perthnasol yw'r rhai hynny a allai fod yn gamarweiniol i'r sawl sy'n darllen eich datganiadau ariannol.

16. Mae'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS) 610 wedi cyflwyno anghenion gorfodol o ran cofnodi gwallau neu gamddatganiadau a ddaw i'r golwg wrth archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol. Byddwn yn parhau i ddod ag unrhyw gamgymeriadau neu gamddatganiadau i sylw'r Trysorydd ond mae SAS 610 yn mynnu ein bod yn tynnu sylw'r sawl sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth at unrhyw wallau (ar wahân i rai mân iawn) a chamddatganiadau a ganfuwyd ond sydd heb eu newid.

## Agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol

17. Gofynnir i ni benderfynu a oes gan yr Awdurdod weithdrefnau boddhaol ar gyfer:
    - cadarnhau cyfreithlonrwydd trafodion ariannol;
    - monitro'i sefyllfa ariannol;
    - rheolaeth ariannol fewnol;
    - safonau ymddygiad ariannol a rhwystro a chanfod twyll a llygredd.
18. Cynhelir profion priodol i sicrhau bod y trefniadau hyn yn ymarferol effeithiol.
19. Hefyd, gwnawn waith i fynd i'r afael â risgiau penodol a ganfuwyd gennym.

| Maes | Argymhelliad gweithredu |
|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | Olrhain pynciau a godwyd yn ein hadolygiad blaenorol ac asesu'r cynnydd. (Roedd hwn yn y Cynllun Archwilio 2002/2004 ond gohiriwyd o ganlyniad i'r Astudiaeth Wirio). (Dim ffi ychwanegol). |
| Cydymffurfiad ag anghenion deddfwriaethol | Cynnal arolwg o'r gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiad ag anghenion Deddf Iawnderau Dynol a Deddf yr Iaith Gymraeg a thynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu pellach. (Roedd hwn yn y Cynllun Archwilio 2002/2004 ond gohiriwyd o ganlyniad i'r Astudiaeth Wirio). (Dim ffi ychwanegol). |
| Rheoli Risg | Olrhain y pynciau a godwyd yn ein hadolygiad blaenorol. (Roedd hwn yn y Cynllun Archwilio 2002/2004 ond gohiriwyd o ganlyniad i'r Astudiaeth Wirio). (Dim ffi ychwanegol). |
| Cod Materion Ariannol | Adolygu'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y Cod Materion Ariannol. |
| Rheoli Asedau | Cynnal arolwg byr o weithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'i asedau. |

20. Gofynnir i ni hefyd i roi barn ar stiwardiaeth a rheolaeth ar gyfer y Comisiwn Archwilio.

## Perfformiad

21. Byddwn yn adolygu:
    - y trefniadau cyffredinol sydd gennych i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eich defnydd o adnoddau.
    - y systemau ar gyfer casglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth benodol am berfformiad.

22. Hefyd byddwn yn gwneud y gwaith canlynol:

| Maes | Argymhelliad gweithredu |
|---|---|
| Arolygon Gwerth Gorau | Paratoi asesiad annibynnol o'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'n unol â chanlyniadau'r Arolygon Gwerth Gorau. (Roedd hwn yn y Cynllun Archwilio 2002/2004 ond gohiriwyd o ganlyniad i'r Astudiaeth Wirio). (Dim ffi ychwanegol). |
| Gweithio mewn Partneriaeth | Paratoi asesiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. (Roedd hwn yn y Cynllun Archwilio 2002/2004 ond gohiriwyd o ganlyniad i'r Astudiaeth Wirio). (Dim ffi ychwanegol). Byddwn yn rhoi ystyriaeth i gasgliadau'r Astudiaeth Wirio wrth gynnal yr arolwg hwn. |
| Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | Cynorthwyo'r Awdurdod i baratoi Cyflwyniad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. |
| Adnoddau Dynol | Adolygu'r trefniadau a sefydlwyd o ran pynciau Adnoddau Dynol. |
| Agenda Moderneiddio | Byddwn yn edrych ar y meysydd gweithredu a godwyd yn yr Astudiaeth Wirio a gynhaliwyd gan y Comisiwn Archwilio. |

## Y Tîm

23. Mae'r tîm yn cynnwys:

| Enw | Safle | e-bost | Ffôn |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Rhanbarth | a-barrett@audit-Comisiwn.gov.uk | Swyddfa: 01244 288530<br>Symudol: 07771 505882 |
| David Jones | Rheolwr Archwilio | d-jones@audit-Comisiwn.gov.uk | Swyddfa: 01244 288530<br>Symudol: 07970 760221 |
| Mark Roberts | Prif Archwilydd | m-roberts@audit-Comisiwn.gov.uk | Swyddfa: 01244 288530 |

24. Hefyd, mae gennym gronfa o arbenigwyr ac archwilwyr a all wneud gwaith manwl.

25. Gofynnir i ni gofnodi unrhyw fater a ellir ei ystyried yn rhesymol yn rhywbeth a allai amharu ar ein hannibyniaeth. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau sy'n berthnasol i annibyniaeth a gwrthrychedd y tîm sydd angen eu datgelu.

26. O ran archwilio eich datganiadau ariannol, byddwn yn cydymffurfio ag anghenion y Comisiwn Archwilio o ran annibyniaeth a gwrthrychedd, fel y'u gwelir yn Atodiad 1.

## Mwy o fanylion am ein gwahanol gyfrifoldebau

27. Mae dogfen y Comisiwn Archwilio 'Datganiad am Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff dan Archwiliad' yn rhoi mwy o wybodaeth am wahanol gyfrifoldebau'r naill a'r llall dan y Cod Ymarfer Archwilio newydd.

## Statws ein hadroddiadau i'r Awdurdod

28. Byddwn yn paratoi adroddiadau, neu gynnyrch arall yn unol â'r hyn a gytunir, i'r Awdurdod ym mhob un o'r meysydd a nodwyd uchod.

29. Mae SAS 610 hefyd yn gofyn i ni wneud adroddiad am faterion perthnasol yn ymwneud ag archwilio i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am reolaeth'. Mae Atodiad 1 hefyd yn dangos sut y byddwn yn ymgymryd â hyn.

30. Yn syml, dyma fydd statws ein hadroddiadau:

- y Llythyr Blynyddol a fydd ar gael i'r cyhoedd;
- Adroddiadau archwilio eraill a memoranda a baratoir ar gyfer yr Awdurdod, ond hwyrach byddwch yn dymuno eu gwneud ar gael i'r cyhoedd.

31. Cofiwch fod ein hadroddiadau archwilio a memoranda:

- wedi'u paratoi'n unig at ddefnydd yr Awdurdod;
- wedi'u hysgrifennu heb dderbyn cyfrifoldeb ar ein rhan i unrhyw berson, gan gynnwys aelodau a swyddogion, nag i unrhyw drydydd parti.

ATODIAD 1

## Gofynion y Comisiwn Archwilio o ran annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae Archwilwyr a benodir gan y Comisiwn Archwilio yn atebol i'r Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) sy'n cynnwys y rheidrwydd i gydymffurfio â Datganiadau Safonau Archwilio (SAS) wrth archwilio datganiadau ariannol. Mae SAS 610.3 yn mynnu bod archwilwyr yn dweud, bob blwyddyn o leiaf, wrth y sawl sydd â chyfrifoldeb am reolaeth, unrhyw berthynas a allai fod yn berthnasol i annibyniaeth y cwmni, i wrthrychedd y partner archwilio ymrwymedig a'r staff archwilio.

Mae'r SAS yn diffinio 'y sawl sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth' fel 'y bobl hynny sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio, rheoli a rhoi cyfeiriad i gorff'. Yn achos Awdurdod Tân Gogledd Cymru cytunwyd y dylid anfon unrhyw ohebiaeth gan yr archwilwyr a fwriadwyd ar gyfer 'y sawl sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth' at yr Awdurdod cyfan.

Mae'r Cod yn mynnu bod archwilwyr yn:

- cyflawni'u gwaith gydag annibyniaeth a gwrthrychedd;
- defnyddio'u barn broffesiynol a gweithredu'n annibynnol o'r Comisiwn a'r corff dan archwiliad;
- cadw agwedd wrthrychol bob amser, a pheidio â gweithredu mewn unrhyw fodd a allai achosi gwrthdaro buddiannau, neu ymddangos felly;
- gwrthsefyll unrhyw ymgais amhriodol i ddylanwadu ar eu barn wrth gynnal yr archwiliad.

Hefyd, mae'r Cod yn mynnu na chaiff archwilwyr, nag unrhyw gwmni y mae gan archwilydd gysylltiad ag ef, wneud unrhyw waith i'r corff dan archwiliad, nad yw'n uniongyrchol berthnasol i ddyletswyddau archwilwyr, os bydd hyn yn amharu ar annibyniaeth yr archwilwyr neu'n rhoi'r argraff resymol i bobl y gallai hyn amharu ar eu hannibyniaeth. Os yw archwilwyr yn dawel eu meddwl na fyddai cyflawni'r gwaith ychwanegol hyn yn amharu ar eu hannibyniaeth fel archwilwyr, ac na fyddai aelod synhwyrol o'r cyhoedd yn teimlo'i fod yn amharu, ac os nad yw gwerth y gwaith mewn blwyddyn ariannol yn uwch na'r swm de-minimus (ar hyn o bryd, swm sy'n uwch na £25,000 neu 20% o'r ffi Archwilio flynyddol), yna mae gan archwilydd (neu, os yn berthnasol, gwmni y mae'n gysylltiedig ag ef) yr hawl i ddewis ymgymryd â'r gwaith. Os bydd cyfanswm gwerth y gwaith i gorff dan archwiliad mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn fwy na'r swm de-minimus, mae'n rhaid i archwilwyr gael caniatâd y Comisiwn cyn ymgymryd â'r gwaith.

Mae'r Cod hefyd yn datgan fod y Comisiwn yn gosod canllawiau oherwydd eu hawl i benodi archwilwyr a phennu telerau'u penodiad. Mae'r Canllawiau Sefydlog ar gyfer Archwilwyr yn cynnwys sawl cyfeiriad at y trefniadau a wneir â'r bwriad o gefnogi ac atgyfnerthu'r anghenion o ran annibyniaeth y mae'n rhaid i archwilwyr gydymffurfio â nhw. Dyma'r anghenion:

- Dylai unrhyw aelod o staff yn gysylltiedig â gwaith y Comisiwn sy'n awyddus i fod yn weithgar yn wleidyddol gael caniatâd ymlaen llaw gan y Partner neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.
- Ni ddisgwylir i staff archwilio dderbyn swyddi fel arolygwyr lleyg ar ysgolion.
- Disgwylir i gwmnïau ymatal rhag niweidio perthnasau gwaith trwy gynnig am waith yn nalgylch y corff dan archwiliad sy'n cystadlu â staff heb drafod hyn a chytuno ar brotocol lleol gyda'r corff perthnasol.

- Disgwylir i archwilwyr gydymffurfio a datganiadau'r Comisiwn o ran y canlynol:
  - cwmnïau'n peidio â chynnig cyngor ariannol personol na chyngor am dreth i ambell unigolyn mewn swydd uchel yn y cyrff dan archwiliad;
  - gwrthdaro buddiannau archwilwyr o ran caffael PFI gan gyrff dan archwiliad;
  - dosraniad gwaith ymgynghorol; a
  - annibyniaeth archwilwyr.
- Ni ddylai archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn dderbyn gwaith sy'n cynnwys rhoi sylwadau am berfformiad archwilwyr eraill y Comisiwn sy'n gwneud gwaith y Comisiwn – heb ymgynghori'n gyntaf â'r Comisiwn.
- Disgwylir i archwilwyr gydymffurfio â pholisi'r Comisiwn – dylid newid yr Archwilydd Rhanbarth/Partner a'r dirprwy (Uwch Reolwr/Rheolwr) ar bob Archwiliad o leiaf unwaith bob pum mlynedd wedi 1 Ebrill 2003, (yn amodol ar y trefniadau trosiannol a gytunwyd).
- Mae'n rhaid i ddarparwyr archwilio gael caniatâd ysgrifenedig gan y Comisiwn ymlaen llaw cyn newid Archwilydd Rhanbarth neu Bartner/Cyfarwyddwr Archwilio yn ymwneud ag unrhyw gorff dan archwiliad.
- Dylid hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid o ran dirprwy o fewn o leiaf 1 mis wedi gwneud y newid. Pan fydd Partner/Cyfarwyddwr neu ddirprwy heb gynnal unrhyw archwiliad dan Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 neu heb weithio gynt i'r darparydd archwilio, gofynnir i'r darparydd archwilio anfon manylion cryno am gymwysterau perthnasol, sgiliau a phrofiad yr unigolyn.

ATODIAD 2

## Deilliannau arfaethedig

Mae’r tabl isod yn dangos yr adroddiadau y bwriadwn eu paratoi ac at bwy y bwriadwn anfon yr adroddiadau hynny. Dylid nodi y byddwn yn trafod pob adroddiad gyda’r swyddogion perthnasol i sicrhau eu bod yn gywir cyn eu hanfod at y sawl sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth.

Gan Anthony Barrett, yr Archwilydd Rhanbarth, mae’r cyfrifoldeb pennaf am drefnu’ch archwiliad, â David Jones, fel Rheolwr Archwiliad, yn gyfrifol o ddydd i ddydd.

Dyma ganlyniadau arfaethedig yr archwiliad (i’w cwblhau wedi cynnal trafodaeth ar y Cynllun).

| Deilliannau Arfaethedig yr Archwiliad 2004/2005 | Dyddiad dechrau mynegol | Dyddiad Drafft i’w ddisgwyl | I’w gyfeirio at |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifon** | | | |
| Memorandwm adolygu gweithdrefnau ariannol craidd. | Ebrill 2005 | 30 Mehefin 2005 | Swyddfa Gydymffurfiad y Cynulliad (ACO) (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Cyfrifon Blynyddol – Barn Archwilwyr. | Gorffennaf 2005 | 31 Hydref 2005 | |
| Memorandwm terfynol am y Cyfrifon. | Gorffennaf 2005 | 30 Tachwedd 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| **Agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol** | | | |
| Adolygiad blynyddol o’r memorandwm Archwilio Mewnol. | Ebrill 2005 | 30 Mehefin 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Memorandwm ar agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol. | Ebrill 2005 | 30 Mehefin 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Adolygiad o gydymffurfiad â Deddf Iawnderau Dynol a Deddf yr Iaith Gymraeg. | Ionawr 2005 | Mawrth 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol), Clerc a’r Trysorydd |
| Adolygiad o Absenoldeb oherwydd Salwch | Ionawr 2005 | Mawrth 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Rheoli Risg | Ionawr 2005 | Mawrth 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Cod Materion Ariannol | Ionawr 2005 | Mawrth 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |
| Rheoli Asedau | Chwefror 2005 | Ebrill 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a’r Trysorydd |

| Deilliannau Arfaethedig yr Archwiliad 2004/2005 | Dyddiad dechrau mynegol | Dyddiad Drafft i'w ddisgwyl | I'w gyfeirio at |
|---|---|---|---|
| **Perfformiad** | | | |
| Adolygu ac asesu'r trefniadau a fabwysiadwyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. | Chwefror 2005 | Ebrill 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Trysorydd |
| Olrhain canlyniadau'r Adolygiadau Gwerth Gorau | Chwefror 2005 | Ebrill 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Trysorydd |
| Arolwg o'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol | Mawrth 2005 | Ebrill 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Trysorydd |
| Arolwg o'r cynnydd wrth weithredu'r Agenda Moderneiddio | Ebrill 2005 | Mehefin 2005 | ACO (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Trysorydd |
| Paratoadau gogyfer â Rhaglen Gymru ar gyfer Gwella | I'w gytuno | I'w gytuno | |
| **Cyffredinol** | | | |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | | 31 Hydref 2005 | Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd |